# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 26 Hydref a 2 Tachwedd 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

9 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i’r Prif Weinidog

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cael yn ei rôl fel Gweinidog Gwyddoniaeth gyda chyrff allanol ers i’r rôl honno gael ei ffurfio? (WAQ48357)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf, er enghraifft, wedi cwrdd ag is-gangellorion a phrifathrawon sefydliadau addysg uwch Cymru gyda’i gilydd ar 3 Tachwedd 2005 ac 14 Mehefin 2006. Cyfarfûm â Dr David Grant, is-ganghellor Prifysgol Caerdydd ddwywaith yn ddiweddar—4 Mai 2006 (gan ymweld hefyd â Chanolfan Delweddu’r Ymennydd Caerdydd) a 28 Gorffennaf 2006. Cyfarfûm â’r Athro Chris Pollock, Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Tir Glas a’r Amgylchedd a’i gymheiriaid sy’n ymwneud â sefydlu’r Ganolfan Defnydd Tir Amgen yn Sioe Frenhinol Cymru. Cyfarfûm â’r Athro Stuart Irvine o adran gemeg Prifysgol Bangor i drafod y cynllun Optroneg yn y Gogledd ar 16 Medi 2004. O ran cyfarfodydd gyda busnesau sydd â gogwydd penodol yng Nghymru, nid yw’n ymarferol gwahaniaethu rhwng ymweliadau yn rôl y Prif Weinidog ac ymweliadau yn rôl y Gweinidog Gwyddoniaeth.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weinyddiaeth pêl-droed yng Nghymru? (WAQ48322)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol i WAQ48050.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Alun Ffred Jones:** Sawl cynllun cefnogi busnesau yng Nghymru a weinyddir (a) yn genedlaethol a (b) gan awdurdodau lleol a beth yw gwerth blynyddol cynlluniau o’r fath? (WAQ48318)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae cyfeiriadur cymorth busnes Llygad Busnes yn rhestru 1,346 o wasanaethau sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru. O’r rhain, mae 1,150 yn rhai sector preifat a 183 yn rhai sector cyhoeddus gyda 107 yn gysylltiedig yn benodol â Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yr agenda resymoli barhaus sydd wrth galon yr adolygiad menter yn arwain at symleiddio portffolio Llywodraeth y Cynulliad yn sylweddol. Mae cynlluniau cymorth busnes Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cyflenwi’n bennaf drwy ardaloedd menter, ardaloedd arloesi ac ardaloedd cymorth rhanbarthol dewisol yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, y mae’r gyllideb ar eu cyfer yn £158 miliwn, ac mae cronfeydd yr UE yn cyfrannu’n sylweddol at hynny. Gall awdurdodau lleol benderfynu ar eu blaenoriaethau datblygu economaidd eu hunain felly nid oes union ffigur ar gael i gynlluniau o’r fath.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun menter cyllid preifat Rhodfa Bute? (WAQ48358)

**Andrew Davies:** Fel rhan o gynllun menter cyllid preifat (PFI) Rhodfa Bute, mae’r partneriaid PFI yn rhagweld y byddant yn dechrau ar gam nesaf y datblygiad swyddfeydd yn Callaghan Square o fewn y misoedd nesaf. Bydd y cam datblygu pellach hwn yn Callaghan Square yn darparu 15,000 metr sgwâr yn fras o swyddfeydd manyleb categori A newydd yng Nghaerdydd. Mae hyn yn ychwanegol at y 13,500 metr sgwâr o swyddfeydd a’r 490 o unedau preswyl sydd eisoes wedi cael eu cwblhau.

**Alun Cairns:** Pa refeniw neu gostau sy'n deillio ar hyn o bryd o gynllun menter cyllid preifat Rhodfa Bute? (WAQ48359)

**Andrew Davies:** Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, amcangyfrifir y bydd costau prosiect Rhodfa Bute yn £6.44 miliwn. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'r costau hyn â'r taliad gwasanaeth blynyddol i'r partner PFI.

Amcangyfrifir y bydd yr incwm yn £1.5 miliwn, sy'n deillio o daliadau 'gorswm' a fydd yn dod i law ar ôl cwblhau rhan o'r datblygiad tai yn Lloyd George Avenue.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Jonathan Morgan:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod dioddefwyr awtistiaeth yng Nghymru yn cael eu gosod mewn lleoliad addysg priodol? (WAQ48315)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i ddarparu addysg addas i bob disgybl, yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mater i'r awdurdod benderfynu arno yw union natur y ddarpariaeth a sut y caiff ei threfnu.

Gall cynnal ystod o wasanaethau ar gyfer anghenion addysgol arbennig prin fod yn anodd i rai o'r AALlau llai a mwy gwledig. Dyna pam y sefydlwyd y grŵp llywio cenedlaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru, gyda chylch gwaith i Gymru gyfan, ac y cymerwyd cymalau i Gymru yn unig yn Neddf Addysg 2002 i ganiatáu ar gyfer cydweithredu rhanbarthol.

I gefnogi'r polisi hwn, mae cymorth ariannol wedi cael ei ddarparu o grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth y Cynulliad. Hyd yma, mae dros £6.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i nifer o brosiectau rhanbarthol, yn cynnwys, o ran awtistiaeth, ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn fel canolfan ragoriaeth i ogledd Cymru a chyfleuster llai yn Ysgol Gyfun Fairwater, Cwmbrân. Mae rhagor o gyllid ar gael i'r AALlau ar gyfer 2007-08.

Yr ydym hefyd yn gweithio gydag Awtistiaeth Cymru i ddatblygu safonau ansawdd i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol o ran y ddarpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth. Bydd y safonau hyn yn sicrhau cysondeb ar draws Cymru a hefyd yn lledaenu arferion da.

**Jonathan Morgan:** Faint o blant sy'n dioddef o awtistiaeth yng Nghymru sy'n gallu mynychu cyfleuster addysg addas yn ardal eu AALl? (WAQ48316)

**Jane Davidson:** Mae Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i ddarparu addysg addas i bob disgybl, yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mater i'r awdurdod benderfyno arno'n gyfan gwbl yw union natur y ddarpariaeth a sut y mae'n cael ei threfnu.

Yng Nghymru, bydd y mwyafrif o blant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn mynychu eu hysgol brif ffrwd leol. O'r rhain, bydd rhai'n cael eu haddysg mewn canolfan adnoddau arbennig o fewn y sefydliad prif ffrwd tra bydd eraill yn cael eu haddysgu mewn dosbarth prif ffrwd, gyda chymorth cynorthwyydd cymorth dysgu efallai. Fodd bynnag, mae ysgolion arbennig yn dal i chwarae rôl hanfodol i'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae angen cymorth penodol ac arbenigol iawn arnynt.

**Jonathan Morgan:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod dioddefwyr awtistiaeth mewn ysgolion yng Nghymru yn cael eu gwarchod rhag bwlio? (WAQ48317)

**Jane Davidson:** O dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, rhaid i bob pennaeth gymryd camau i atal bwlio o bob math. I'r perwyl hwn, cynhyrchodd Llywodraeth y Cynulliad y canllawiau cynhwysfawr cyntaf ar fwlio ym mis Medi 2003 (cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/2003) sy'n rhoi enghreifftiau o ddulliau ymarferol sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu rhestr gynhwysfawr o nodweddion y rhai sy'n fwy tueddol o gael eu bwlio ac yn gynwysedig yn y rhestr hon mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd neu nam corfforol, meddyliol neu synhwyraidd. Yr ydym yn cydnabod nad yw disgyblion sydd ag AAA neu anableddau yn gallu mynegi eu profiadau cystal efallai â phlant eraill, yn enwedig felly y rhai sydd ag anawsterau iaith a chyfathrebu. Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor i ysgolion am y strategaethau y gallent eu rhoi ar waith i helpu'r disgyblion hyn, megis osgoi tynnu gormod o sylw at eu gwahaniaethau; mentora gan gyfoedion a 'bydis'; dysgu dioddefwyr i ddweud 'na' neu i gael help; neu waith chwarae rhan i ddelio â gwawdio. Argymhellir hefyd y dylai polisïau ysgolion ar fwlio gyfeirio at fwlio sy'n mynd ati'n arbennig i wahaniaethu, megis bwlio'r rhai sydd ag anableddau, er mwyn gwneud disgyblion yn ymwybodol na ddylid gwneud hynny ac y bydd yr ysgol yn gweithredu'n briodol.

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, yn sgil canfyddiadau adroddiad y CBI 'Working on the Three Rs'? (WAQ48320)

**Jane Davidson:** Nid yw'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn yn newydd inni yng Nghymru—nododd y gwaith a wnaethpwyd gan Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn glir yr angen i sicrhau bod gan y rhai sy'n gadael yr ysgol a graddedigion y sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen. Mae ein cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth 2005 yn nodi ystod eang o gamau yr ydym yn eu cymryd i roi sylw i'r materion hyn a, chyn belled ag y mae sgiliau sylfaenol yn bod, mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo drwy 'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri'. Ymysg y gwaith mawr yr ydym yn ei wneud yn y maes hwn mae'r cynllun i godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru (Rhagori), cymhwyster bagloriaeth Cymru, hyrwyddo sgiliau allweddol ac ystod eang o waith i hybu sgiliau sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai ymyriadau cynnar iawn fel y rhaglen iaith a chwarae, cymorth i ddysgwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a sefydliadau dysgu eraill, megis dosbarthiadau dal i fyny, a'n cynllun arloesol Adduned y Cyflogwr i'r rhai sydd mewn cyflogaeth. Ymysg y dystiolaeth sy'n dangos llwyddiant ein dulliau gweithredu mae'r ffaith bod llawer mwy o bobl yn ennill sgiliau allweddol yng Nghymru nag yn Lloegr. Yr ydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cynghorau sgiliau sector i ganfod pa sgiliau a chymwysterau y mae ar eu cyflogwyr eu hangen yn awr ac y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy'r cytundebau sgiliau sector lle mae cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i weithio gyda darparwyr dysgu i sicrhau bod yr anghenion sgiliau hyn yn cael sylw.

Bu llawer iawn o weithgarwch hefyd ar strategaethau dysgu seiliedig ar waith, ar mae'r cynllun i wella dysgu seiliedig ar waith eisoes yn weithredol ac yn cynnwys rhaglen newydd lefel mynediad sy'n fwy addas i anghenion cyflogwyr a dysgwyr fel ei gilydd. Yr ydym hefyd wedi bod ar flaen y gad yn arloesi yng Nghymru drwy ddileu cyfyngiadau oedran ar ein prentisiaethau modern a chyflwyno'r diploma sgiliau modern ac yr ydym erbyn hyn yn gweithio gyda'r cynghorau sgiliau sector i ddatblygu llwybrau dysgu newydd sy'n canolbwyntio ar waith a fydd yn galluogi pobl ifanc i gyfuno dysgu yn yr ysgol gyda dysgu yn y gweithle—ac i symud ymlaen yn gyflym at Brentisiaeth Fodern.

Bydd y datblygiadau hyn i gyd yn helpu pobl ifanc yng Nghymru i fagu'r sgiliau y mae arolygon y CBI yn dangos y mae ar gyflogwyr eu hangen.

**Janet Ryder:** Pa ddarpariaeth sydd ar gael mewn ysgolion ar gyfer plant nad ydynt yn siarad na Chymraeg na Saesneg? (WAQ48333)

**Jane Davidson:** Y ffordd orau o ddiwallu anghenion neilltuol plant o'r fath yw drwy ddull ysgol gyfan cydgysylltiedig sy'n golygu cynllunio manwl ar draws meysydd y cwricwlwm ac yn rhoi sylw i

ddefnyddio athrawon a chynorthwywyr cymorth iaith i helpu'r disgyblion a'r staff. Dylid anelu at hyfforddiant sgiliau iaith sy'n berthnasol i weithgareddau eraill yn yr ysgol ac sy'n help i'r plant integreiddio yn gymdeithasol ac yn academaidd. Dylai ysgolion ymateb hefyd i'r plant hynny y mae angen gofal bugeiliol ychwanegol arnynt. Y nod yn y pen draw yw sicrhau bod y plant hyn yn cyrraedd eu potensial er gwaethaf y rhwystr iaith cychwynnol.

Mae £5 miliwn o arian ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i AALlau yn 2006-07 i hyrwyddo cyraeddiadau lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig gan blant sydd ag anghenion iaith ychwanegol. Mae plant ceiswyr lloches yn grŵp penodol nad ydynt yn debygol o siarad Cymraeg na Saesneg ac sydd â phroblemau ychwanegol hefyd. Bydd grant penodol o £2.4 miliwn gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ceiswyr lloches yn cael ei rannu gan yr AALlau hynny sydd â phlant o'r fath yn 2006-07. Yn ogystal â thalu costau hyfforddiant a chymorth canolog, mae'r grant hefyd yn talu am wisg ysgol, prydau a thrafnidiaeth y plant hyn. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd ar hyn o bryd i sicrhau bod ysgolion yn cael eu galluogi i ddiwallu holl anghenion dysgu plant gweithwyr mudol y mae mwy a mwy ohonynt yn cyrraedd Cymru.

**David Lloyd:** Pa gynlluniau ieuenctid neu weithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (WAQ48345)

**Jane Davidson:** Mae pobl ifanc yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu manteisio ar ystod eang o wasanaethau ieuenctid. Yn sail i'r gwasanaethau hynny mewn partneriaeth leol strategol rhwng mudiadau ieuenctid statudol a gwirfoddol. Mae darparwyr gwasanaethau yn gweithio drwy'r bartneriaeth pobl ifanc i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig yr ystod ehangaf bosibl o gyfleoedd, yn yr ystod ehangaf o sefydliadau. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys yr awdurdod lleol, mudiadau ieuenctid gwirfoddol ac ystod o gyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc.

Cafodd y gofyniad am bartneriaeth strategol i gyd-drefnu gwasanaethau lleol ei greu gan bolisi blaengar y Cynulliad, Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru, a oedd hefyd yn cydnabod yr angen am i wasanaethau gael eu strwythuro o amgylch hawl gyffredinol pob person ifanc i hyrwyddo ei gyrhaeddiad a'i ddatblygiad fel unigolyn.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig gwasanaethau i bobl ifanc mewn canolfannau yn Abercerdin, Abercynffig, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, Bryntirion, Cynffig, Blaengarw, Heol-y-Cyw, Maesteg (2), Nant-y-moel, Gogledd-Corneli, Bro Ogwr, Pencoed, Porthcawl, Sarn a Tondu. Ychwanegir at y ddarpariaeth hon gan waith y sector gwirfoddol drwy fudiadau cenedlaethol, yn cynnwys Clybiau Bechgyn a Merched Cymru yn y Betws a'r YMCA ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, a thrwy lawer o fudiadau lleol megis Mynyddcynffig, y Pîl ac Ieuenctid Corneli yn y Pîl.

**Nick Bourne:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o arolwg diweddar y CBI a ddangosai bod nifer o gyflogwyr yn anfodlon â'r lefelau sgiliau ymhlith pobl ifanc sy'n cyrraedd y gweithle, a pha gamau y bydd hi'n eu cymryd i wella'r lefelau sgiliau hynny? (WAQ48346)

**Jane Davidson:** Cafwyd dau adroddiad gan y CBI yn ddiweddar—'Employment Trends Survey 2006' a 'Working on the Three Rs', ac mae'r naill a'r llall ohonynt yn edrych ar yr angen i sicrhau bod y sgiliau sy'n cael eu datblygu drwy addysg a hyfforddiant yn briodol wrth i bobl ifanc ddechrau ar gyflogaeth. Nid yw'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn yn newydd inni yng Nghymru—nododd y gwaith a wnaethpwyd gan Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn glir yr angen i sicrhau bod gan y rhai sy'n gadael yr ysgol a graddedigion y sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen. Mae ein cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth 2005 yn nodi ystod eang o gamau yr ydym yn eu cymryd i roi sylw i'r materion hyn a, chyn belled ag y mae sgiliau sylfaenol yn bod, mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo drwy 'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri'. Ymysg y gwaith mawr yr ydym yn ei wneud yn y maes hwn mae'r cynllun i godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru, cymhwyster bagloriaeth Cymru a hyrwyddo sgiliau allweddol. Mae llawer mwy o bobl yn ennill sgiliau allweddol yng Nghymru nag yn Lloegr. Yr

ydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cynghorau sgiliau sector i ganfod pa sgiliau a chymwysterau y mae ar eu cyflogwyr eu hangen yn awr ac y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy'r cytundebau sgiliau sector lle mae cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i weithio gyda darparwyr dysgu i sicrhau bod yr anghenion sgiliau hyn yn cael sylw.

Bu llawer iawn o weithgarwch hefyd ar strategaethau dysgu seiliedig ar waith, ar mae'r cynllun i wella dysgu seiliedig ar waith eisoes yn weithredol ac yn cynnwys rhaglen newydd lefel mynediad sy'n fwy addas i anghenion cyflogwyr a dysgwyr fel ei gilydd. Yr ydym hefyd wedi bod ar flaen y gad yn arloesi yng Nghymru drwy ddileu cyfyngiadau oedran ar ein prentisiaethau modern a chyflwyno'r diploma sgiliau modern ac yr ydym erbyn hyn yn gweithio gyda'r cynghorau sgiliau sector i ddatblygu llwybrau dysgu newydd sy'n canolbwyntio ar waith a fydd yn galluogi pobl ifanc i gyfuno dysgu yn yr ysgol gyda dysgu yn y gweithle—ac i symud ymlaen yn gyflym at Brentisiaeth Fodern.

Bydd y datblygiadau hyn i gyd yn helpu pobl ifanc yng Nghymru i fagu'r sgiliau y mae arolygon y CBI yn dangos y mae ar gyflogwyr eu hangen.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o ble y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn anfon a) papur, b) caniau, c) gwydr, d) plastigau, e) gwastraff o'r ardd ac e) pob gwastraff domestig arall ar gyfer ei ailgylchu neu waredu? (WAQ48323)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn cofnodi cyrchfan deunyddiau sy'n cael eu casglu i'w hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu compostio ar gronfa ddata genedlaethol i wastraff trefol ar y we, WasteDataFlow. Mae'r system hon yn eiddo i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ac, yng Nghymru, caiff ei gweinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae swmp y data y gofynnwyd amdano yn fawr iawn, oherwydd gallai pob awdurdod lleol fod â nifer o gyrchfannau i rai mathau o ddeunydd yn ogystal â gwahanol gyrchfannau i wahanol ddeunyddiau. Byddai gofyn cael adroddiad arbennig gan yr asiantaeth er mwyn cael gafael ar y data. Os ydym i fynd ar drywydd hyn, yn cynnwys llunio amcangyfrif o'r costau tebygol, hoffwn i'm swyddogion gysylltu â'ch staff chi i ddiffinio'r hyn yr ydych yn ei geisio yn fanwl.

O ran deunyddiau bioddiraddadwy, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn archwilio'r meintiau sy'n cael eu hanfon i'w compostio, i gael eu trin neu i gael eu gwaredu yn unol â'i rôl fel awdurdod monitro dan y cynllun lwfansau tirlenwi yng Nghymru, gan ddefnyddio WasteDataFlow. Mae'r safleoedd tirlenwi a ddefnyddir gan bob awdurdod yn cael eu henwi. Anfonaf gopi atoch o adroddiad blynyddol diweddaraf Asiantaeth yr Amgylchedd am y cynllun lwfansau tirlenwi.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48135; a wnaiff y Gweinidog nodi (i) y cyllid wedi'i fodiwleiddio a wariwyd cyn belled yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a (ii) y prosiectau y rhoddwyd y cyllid iddynt? (WAQ48338)

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48131; a wnaiff y Gweinidog nodi (i) y cyllid cyfatebol gan y Trysorlys a wariwyd cyn belled yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a (ii) y prosiectau y rhoddwyd y cyllid iddynt? (WAQ48336)

**Carwyn Jones:** Mae'r arian modiwleiddio gwirfoddol a godwyd yn ystod y cynllun datblygu gwledig cyfredol yn cael ei ddefnyddio yn unswydd i gyllido Tir Gofal. Rhwng mis Ebrill a diwedd mis Hydref 2006, mae £1.8 miliwn o arian modiwleiddio gwirfoddol wedi cael ei ddefnyddio.

Dan reoliad 1782/2003 CE, mae modiwleiddio gorfodol, a gyflwynwyd yn 2005, yn cael ei gymhwyso'n flynyddol ar gyfradd a bennir gan Ewrop, ac mae'r derbyniadau ar gael dan Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop fel un ffynhonnell gyllido o flwyddyn 2006 EAGGF (mis Hydref 2005-fis Hydref 2006).

Yn 2005 yr oedd y gyfradd fodiwleiddio orfodol yn 3 y cant, gan godi £4.6 miliwn i gael ei wario yng Nghymru ym mlwyddyn 2006 EAGGF. Mae'r swm hwn wedi cael ei ddefnyddio'n llwyr ar gynlluniau sy'n gymwys i gael eu cydgyllido o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2000 i 2006.

Fel yr eglurais yn fy ateb i gwestiwn WAQ48135, nid oes llinell ar wahân yn y gyllideb ar gyfer arian cyfatebol y Trysorlys. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r gwariant ar Tir Cynnal wedi rhoi cyfanswm o £5.8 miliwn ac, o'r swm hwnnw, cafodd £2.9 miliwn ei gyllido o linell wariant Tir Cymru yng nghyllideb y DU.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48133; a wnaiff y Gweinidog ddatgan cyfanswm y gwariant cyn belled ar ffermio sensitif-i-ddalgylch, ac a wnaiff ef nodi o ba linellau cyllideb a ffynonellau cyllid y cafwyd y cyllid hwn? (WAQ48339)

**Carwyn Jones:** Mae cyfanswm y gwariant hyd yma ar ffermio sensitif-i-ddalgylch, o linell wariant Tir Cymru yn y gyllideb, yn £19,763. Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiect yn £1,783,589 ac o'r swm hwnnw mae'r cymorth o du Llywodraeth Cynulliad Cymru yn £432,234. Yn ogystal, daw cyllid sy'n cynnwys arian a chyfraniadau o fath arall o'r ffynonellau a ddangosir isod.

| | |
|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £119,357 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | £123,666 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | £139,060 |
| Amcan 1 | £487,848 |
| Ffermwyr sy'n cymryd rhan | £481,424 |

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48133, a wnaiff y Gweinidog fanylu ar gyfanswm y ffermydd ym mhob cynllun ffermio sensitif-i-ddalgylch, a chyfanswm yr hectarau ym mhob peilot? (WAQ48340)

**Carwyn Jones:** Mae 62 o ffermydd yng nghynllun peilot Llafar/Twrch, gyda chyfanswm o 6,011 hectar, a 41 o ffermydd yng nghynllun peilot Deepford, gyda chyfanswm o 2,116 hectar.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr ymatebion a wnaeth i'r Rheoliad Comisiwn Drafft ynghylch cymhwyso Erthyglau 87 ac 88 Cytuniad Cymorth Gwladol y CE i fusnesau bach a chanolig sy'n weithgar ym maes cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol ac addasu Rheoliad (EC) 70/2001? (WAQ48341)

**Carwyn Jones:** Mae'r sylwadau ar y cyd a wnaed gan fy swyddogion i, mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r adrannau datganoledig cyfatebol, i'r Comisiwn Ewropeaidd yn amlinellu pryderon am y newidiadau arfaethedig i reolau cymorth gwladol y CE wedi bod yn llwyddiannus.

Mae'r comisiwn wedi rhoi sylw i'r sylwadau a wnaed gan aelod wladwriaethau a sefydliadau ac mae wedi rhyddhau fersiwn diwygiedig o'r canllawiau cymorth gwladol. Mae'r fersiwn hwn yn golygu, cyhyd â bod iawndal iechyd anifeiliaid yn rhan o gynllun yr hysbysir y comisiwn ohono, a'i fod ynghlwm wrth gynllun rheoli/dileu, fod modd talu iawndal 100 y cant, ac mae'r cyfyngiad cynhyrchiant 30 y cant wedi cael ei godi. Nid yw'r cyfyngiad ar dalu cymorth gwladol i gwmnïau mawr yn sefyll mwyach ychwaith.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad manwl am y goblygiadau i Gymru o gynigion a gynhwysir yn y rheoliad comisiwn drafft ynghylch cymhwyso Erthyglau 87 ac 88 Cytuniad Cymorth Gwladol EC i fusnesau bach a chanolig sy'n weithgar ym maes cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol ac addasu Rheoliad (EC) 70/2001? (WAQ48342)

**Carwyn Jones:** Mae'r sylwadau ar y cyd a wnaed gan fy swyddogion i, mewn partneriaeth â DEFRA a'r adrannau datganoledig cyfatebol, i'r Comisiwn Ewropeaidd yn amlinellu pryderon am y newidiadau arfaethedig i reolau cymorth gwlad y CE wedi bod yn llwyddiannus.

Mae'r comisiwn wedi rhoi sylw i'r sylwadau a wnaed gan aelod wladwriaethau a sefydliadau ac mae wedi rhyddhau fersiwn diwygiedig o'r canllawiau cymorth gwladol. Mae'r fersiwn hwn yn golygu, cyhyd â bod iawndal iechyd anifeiliaid yn rhan o gynllun yr hysbysir y comisiwn ohono, a'i fod ynghlwm wrth gynllun rheoli/dileu, fod modd talu iawndal 100 y cant, ac mae'r cyfyngiad cynhyrchiant 30 y cant wedi cael ei godi. Nid yw'r cyfyngiad ar dalu cymorth gwladol i gwmnïau mawr yn sefyll mwyach ychwaith.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48126 a WAQ48127; a wnaiff y Gweinidog gadarnhau, a dangos, a yw wedi cyflawni'r cyfraniad cymunedol o 25 y cant yn gyffredinol ar gyfer gweithgareddau cymwys yng Nghymru a gynhwyswyd yn y cynllun ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ48337)

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48126 a WAQ48127; a wnaiff y Gweinidog restru holl gynlluniau'r Llywodraeth sy'n gymwys ar gyfer cyfraniad cymunedol o 25 y cant o fewn y cynllun, ac a wnaiff ef nodi'r cyfraniad cymunedol (i) a gymhwyswyd a (ii) a sicrhawyd ar gyfer pob cynllun ym mhob blwyddyn ers cychwyn pob cynllun? (WAQ48344)

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ48126 a WAQ48127; a wnaiff y Gweinidog nodi'r cyfraniad cymunedol (i) a gymhwyswyd, a (ii) a sicrhawyd ar gyfer (a) Cyswllt Ffermio, (b) grant prosesu a marchnata, (c) arloesi fferm a (d) grantiau menter fferm ym mhob blwyddyn ers cychwyn pob cynllun? (WAQ48343)

**Carwyn Jones:** Yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2000 i 2006, mae'r cyfraniad cymunedol fel y'i cynrychiolir gan y dyraniad penodedig i Gymru o EAGGF oddeutu 30 y cant o'r holl gyllid sy'n gymwys ar gyfer cydgyllido.

Mae'r cynlluniau sy'n gweithredu o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2000 i 2006, y mae modd cydgyllido'r cyllid ar eu cyfer o dan EAGGF, yn cael eu rhestru isod. Nid yw'r cyfraddau hyn yn newid llawer o flwyddyn i flwyddyn.

| **Cynlluniau** | **Cyfradd y Cyfraniad Cymunedol tuag at y Cyllid Cymwys %** |
|---|---|
| Grant Gwella Ffermydd | 25 |
| Grant Menter Fferm (Amaethyddol) | 25 |
| Grant Bach Prosesu a Marchnata | 25 |
| Grant Prosesu a Marchnata | 50 |
| Tir Gofal | 35 |
| Tir Mynydd | 15 |
| Cynllun Ardal Amgylcheddol Sensitif | 50 |
| Cynllun Ffermio Organig | 75 (yn yr ardal Amc 1) |
| | 50 (ar wahân i'r ardal Amc 1) |
| Cynefinoedd | 50 |
| Cynlluniau Coetir | 50 |
| Gwasanaethau Sylfaenol i'r Economi Wledig | 50 |
| Adnewyddu a Datblygu Pentrefi | 50 |
| Anogaeth i Dwristiaeth | 50 |

| | |
|---|---|
| Arallgyfeirio (Grant Menter Fferm Anamaethyddol) | 50 |

Yn 2000, cafodd lefel y cyfraniad cymunedol tuag at Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000 i 2006 ei phennu gan Ewrop ar £100 miliwn. Nid yw'r gyfradd gydgyllido, ar lefel cynllun a thrwyddi draw, yn ddim ond adlewyrchiad o'r gyfran o'r dyraniad Ewropeaidd sefydlog hwn o ystyried y buddsoddiad o adnoddau Llywodraeth y Cynulliad sy'n ofynnol i dynnu cyllid yr UE i lawr.

Nid mater o gymhwyso a chael arian cydgyllido oddi wrth yr UE mohono. Mae'r drefn gydgyllido wedi cael ei nodi yn y Cynllun Datblygu Gwledig, fesul blwyddyn a fesul mesur, a chytunodd y comisiwn arni fel rhan o'i benderfyniad cymeradwyo yn 2000.

O ran Tir Mynydd dywed y cynllun na fydd y cyfraniad cymunedol yn fwy na 25 y cant o'r gost gyhoeddus. Cytunwyd ar hyn hefyd gyda'r comisiwn.

Yr oedd cyfradd y cyfraniad cymunedol tuag at Tir Mynydd rhwng 2000 a 2006 yn 15 y cant ar gyfartaledd a chafodd lefel sylweddol uwch o gyllid, o adnoddau Ewropeaidd ac adnoddau Llywodraeth y Cynulliad ei hun, nag unrhyw gynllun unigol arall o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Lisa Francis:** A oedd y £3,057, a wariwyd ar gyngor cyfreithiol ynghylch cerdyn Nadolig Alun Pugh yn 2005 wedi'i gynnwys yn y £5,302.20 a ddyfynnwyd fel cyfanswm cost cardiau Nadolig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb y Gweinidog i WAQ45957? (WAQ48347)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yr oedd cost lawn cardiau Nadolig Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i dyfynnwyd yn yr ymateb i WAQ45957, yn cynnwys cost cyngor cyfreithiol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau cyfraddau clefyd yr iau yng Nghymru? (WAQ48304)

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau ar gyfer cleifion sydd â chlefyd yr iau yng Nghymru? (WAQ48305)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Yng Nghymru mae cleifion sydd â chlefyd yr iau yn cael eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu harwain gan Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sydd hefyd wedi datblygu gwasanaeth rhag-ddethol iau ar gyfer canserau eilaidd. Mae'r cleifion hynny y mae angen rheolaeth fwy cymhleth dros eu hachos neu y mae angen trawsblaniad iau arnynt yn cael eu cyfeirio i glinigau arbenigol yn Lloegr am driniaeth.

Ar hyn o bryd mae Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu gwasanaethau Ysbyty Queen Elizabeth yn Birmingham, Ysbyty Kings College ac Ysbyty Royal Free yn Llundain ar gyfer cleifion y mae angen trawsblaniad iau arnynt. Caiff cleifion y mae angen triniaeth ar gyfer Hepatitis C arnynt eu cyfeirio i Basingstoke, Llundain neu Birmingham. Ar gyfer llawdriniaeth bediatrig ar yr iau, caiff cleifion o Gymru eu cyfeirio i Ysbyty Great Ormond Street, Birmingham neu Leeds.

Ar ben hynny, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn cynnal trafodaethau gydag Ysbyty Athrofaol Cymru am gleifion y gallai fod angen triniaeth arnynt yn Lloegr i sicrhau bod y cynllunio clinigol yng Nghymru yn

ystyried y gofal sy'n ofynnol. Bwriad hwn yw canfod pa fathau o gleifion allai gael eu trin yng Nghymru, ar ba sail, ac am ba gost. Mae'r prosiect cyfeirio trydyddol yng Nghomisiwn Iechyd Cymru yn cael ei werthuso, a'r bwriad yw adolygu'r llif cleifion yn uniongyrchol gydag aseswyr clinigol enwebedig. Mae'r comisiwn yn bwriadu cytuno ar lwybrau gofal gydag Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae'r adolygiad strategol cenedlaethol o Hepatitis C yn parhau. Mae'r adolygiad yn cynnwys asesiadau o anghenion epidemiolegol a chymdeithasol, gyda gwerthusiad o'r gwasanaethau cyfredol. Disgwyliaf i'r grŵp gyflwyno ei adroddiad terfynol yn ddiweddarach eleni.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr hepatolegwyr yng Nghymru? (WAQ48306)

**Brian Gibbons:** Mae hepatologwyr yn cael eu diffinio fel meddygon sy'n arbenigo yng nghlefydau'r iau. Yng Nghymru, caiff cleifion sydd â chlefyd yr iau eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu harwain gan Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sydd hefyd wedi datblygu gwasanaeth rhag-ddethol iau ar gyfer canserau eilaidd. Mae'r cleifion hynny y mae angen rheolaeth fwy cymhleth dros eu hachos neu y mae angen trawsblaniad iau arnynt yn cael eu cyfeirio i glinigau arbenigol yn Lloegr am driniaeth.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa gyllid y mae'n bwriadu ei ryddhau ar gyfer gwasanaeth ailsefydlu cardiaidd-yn-y-gymuned Ymddiriedolaeth Caerdydd a'r Fro, ac a wnaiff ef roi manylion penodol am gyllid ar ôl 2007? (WAQ48330)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol, yn gweithio gyda'u hymddiriedolaethau GIG partner a darparwyr eraill drwy'r rhwydwaith cardiaidd rhanbarthol, yw comisiynu gwasanaethau ailsefydlu cardiaidd oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Rhaid i'r rhwydwaith cardiaidd rhanbarthol asesu'r anghenion lleol a chynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny, o fewn y cyfanswm adnoddau sydd ar gael at ei gilydd.

Mae mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon yn dal i fod yn un o brif flaenoriaethau iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i glefyd coronaidd y galon, a gyhoeddwyd yn 2001, yw'r allwedd er mwyn gwella mynediad at wasanaethau a gwella ansawdd y gwasanaethau hynny, yn cynnwys adsefydlu, i boblogaeth Cymru.

Er mwyn adlewyrchu'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni hyd yma, 'Cynllun Oes' a'i dargedau cysylltiol, tystiolaeth glinigol newydd ac ymchwil, datblygiadau newydd a thechnolegau, mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon yn y broses o gael ei ddiweddaru. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd gofynion ansawdd i wasanaethau adsefydlu cardiaidd, yn manylu ar nodweddion gwasanaeth o ansawdd uchel, yn cael eu cynhyrchu. Bydd y gofynion ansawdd hyn yn dylanwadu ar ac yn sylfaen i benderfyniadau'r BILlau am gomisiynu a chynllunio gwasanaethau adsefydlu cardiaidd. Byddant yn sicrhau hefyd fod cleifion yn gallu cyrchu at y gwasanaethau hynod bwysig hyn, sy'n rhan annatod o'r gofal i bobl sydd â chlefyd cardiaidd neu y mae perygl iddynt ei gael.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei strategaeth ar gyfer trin epilepsi yng Nghymru? (WAQ48332)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella safonau gofal a lleihau'r amrywiadau yn iechyd a lles pobl sydd ag epilepsi a chyflyrau niwrolegol eraill.

Mae cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer epilepsi a chyflyrau niwrolegol eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y cyfarwyddebau'n rhan bwysig o gyfres o gyhoeddiadau a fydd yn darparu fframwaith i ailfodelu a gwella'r ffordd y caiff cyflyrau cronig eu rheoli ar draws Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnal amcanion 'Cynllun Oes' a bydd yn rhoi canllawiau i gomisiynwyr a

chynllunwyr gwasanaethau i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sydd ag epilepsi.

Bydd y cyfarwyddebau yn help i wella'r safonau gofal i bobl sydd ag epilepsi ar draws Cymru. Byddant yn adeiladu ar y canllawiau seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir gan y sefydliad cenedlaethol dros iechyd a rhagoriaeth glinigol a chyrff proffesiynol allweddol eraill perthnasol a byddant yn cefnogi gwelliannau ansawdd sydd wedi cael eu nodi'n barod yn y contract newydd am wasanaethau meddygol cyffredinol.

Yn sylfaen i'r cyfarwyddebau epilepsi bydd dull llwybr gofal sy'n canolbwyntio ar faterion diagnosio, asesu, trin, rheoli a hybu annibyniaeth i'r eithaf. Bydd y ddogfen hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu drwy dimau amlddisgyblaethol integredig ac arbenigol, gyda phartneriaethau â'r sector gwirfoddol yn gefn iddynt, i sicrhau bod modd darparu gwasanaethau a chymorth effeithiol, seiliedig ar dystiolaeth, i gleifion sydd ag epilepsi a hynny mewn modd cydgysylltiedig, yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

Rhagwelir y bydd y cyfarwyddebau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer cyfnod o dri mis o ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddarach eleni.

**Nick Bourne:** A oes unrhyw hepatolegwyr yng Nghymru ac, os oes, pwy ac ymhle? (WAQ48334)

**Brian Gibbons:** Mae hepatolegwyr yn cael eu diffinio fel meddygon sy'n arbenigo yng nghlefydau'r iau. Yng Nghymru mae cleifion sydd â chlefyd yr iau yn cael eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu harwain gan Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sydd hefyd wedi datblygu gwasanaeth rhag-ddethol iau ar gyfer canserau eilaidd. Mae'r cleifion hynny y mae angen rheolaeth fwy cymhleth dros eu hachos neu y mae angen trawsblaniad iau arnynt yn cael eu cyfeirio i glinigau arbenigol yn Lloegr am driniaeth.

**Nick Bourne:** Faint o gleifion y disgwylir iddynt gofrestru yn y practis Denticare newydd yn Llanfair ym Muallt? (WAQ48348)

**Nick Bourne:** Gan gyfeirio at eich ateb i WAQ48110, pryd y mae disgwyl i'r ail bractis Denticare agor yn Llanfair ym Muallt? (WAQ48349)

**Brian Gibbons:** Mae gan Denticare ddau bractis yn gweithredu yn Llanfair ym Muallt. Nid oes cynlluniau i agor trydydd un. Gwelodd datblygiad diweddaraf y cwmni yn gynharach eleni i ddarparu gwasanaethau gofal deintyddol sylfaenol ef yn defnyddio Ysbyty'r Bwthyn yn Llanfair ym Muallt, gan gynyddu'r nifer o bobl a gaiff eu trin o dan y contract gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys i 4,500 yn fras.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog nodi ei flaenoriaethau ar gyfer cefnogi ysbytai cymunedol? (WAQ48350)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol ar draws Cymru yw comisiynu gwasanaethau gofal iechyd i'w poblogaeth breswyl. Eu rôl hwy yw ymgymryd ag asesiadau anghenion iechyd lleol a blaenoriaethu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau a datblygiadau yn unol â hynny, o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid bod tystiolaeth ar gael yn gefn i benderfyniadau BILl am y ddarpariaeth—yn cynnwys y ddarpariaeth ysbytai bwthyn—a rhaid i'r BILl wneud ei benderfyniadau mewn ffordd sy'n atebol i'r cyhoedd.

**Helen Mary Jones:** A oes hepatolegydd yng Nghymru? (WAQ48352)

**Brian Gibbons:** Mae hepatolegwyr yn cael eu diffinio fel meddygon sy'n arbenigo yng nghlefydau'r iau. Yng Nghymru mae cleifion sydd â chlefyd yr iau yn cael eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu harwain gan Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sydd hefyd wedi datblygu gwasanaeth rhag-ddethol iau ar gyfer canserau eilaidd. Mae'r cleifion hynny y mae angen rheolaeth fwy cymhleth dros eu hachos neu y mae angen trawsblaniad iau arnynt yn cael eu cyfeirio i glinigau arbenigol yn Lloegr am driniaeth.

**Alun Cairns:** Pa drefniadau y mae'r Gweinidog wedi'u sefydlu gyda chyflenwyr ocsigen blaenorol i'r GIG ynghylch cost dychwelyd silindrau? (WAQ48353)

**Brian Gibbons:** O dan y trefniadau blaenorol i ddarparu therapi ocsigen gartref, yr oedd fferyllwyr cymunedol yn ymrwymo i gontract gyda'r cyflenwr ocsigen blaenorol i ddarparu silindrau ocsigen i'w gweinyddu i gleifion. Mater rhwng y fferyllwyr cymunedol a'r cyflenwr ocsigen blaenorol felly yw dychwelyd silindrau.

**Alun Cairns:** Am faint y bydd yn rhaid i unigolyn ddisgwyl am driniaeth ailsefydlu ymhob un o awdurdodau lleol Cymru? (WAQ48354)

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth am amseroedd aros yn cael ei chyhoeddi ar StatsCymru ar:
http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx

**Lisa Francis:** A yw pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi cwblhau'r datganiadau treth diwedd blwyddyn ar gyfer gweithwyr ac a yw pob gweithiwr wedi derbyn y ffurflenni P60 neu P45 sy'n gysylltiedig â hyn? (WAQ48361)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddechrau sgrinio babanod newydd-anedig ar gyfer anhwylderau gwaed y crymangelloedd? (WAQ48362)

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi comisiynu adolygiad o sgrinio smotyn gwaed ar gyfer babanod newydd-anedig drwy wasanaeth sgrinio Cymru ac mae nifer o weithdai wedi cael eu cynnal, yn cynnwys un am anhwylderau gwaed y crymangelloedd. Mae'r cynigion sy'n deillio o'r adolygiad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a chaiff ei ganfyddiadau eu cyflwyno i'r Cynulliad am ystyriaeth yn fuan.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau'r flwyddyn ariannol ar gyfer y contract meddygon teulu yn cael eu hariannu'n llawn gan gyllideb ddrafft 2007-08? (WAQ48363)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau'r flwyddyn ariannol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu yn cael eu hariannu'n llawn gan gyllideb ddrafft 2007-08? (WAQ48364)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau'r flwyddyn ariannol ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu hariannu'n llawn gan gyllideb ddrafft 2007-08? (WAQ48365)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd costau'r flwyddyn ariannol ar gyfer yr Agenda ar gyfer Newid yn cael eu hariannu'n llawn gan gyllideb ddrafft 2007-08? (WAQ48366)

**Brian Gibbons:** Mae cyllid gogyfer â'r contract meddygon teulu a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau wedi cael ei gynnwys yn y llinell wariant taliadau i gontractwyr yn y gyllideb. Caiff hyn ei

gyhoeddi i gyrff GIG yn y llythyr dyraniad refeniw i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru yn yr hydref.

Mae cyllid i gwrdd â chostau'r 'Agenda ar gyfer Newid' a chontract yr ymgynghorwyr wedi cael ei gynnwys yng nghyllidebau'r BILlau a'r ymddiriedolaethau a chyllidebau canolog—llinell wariant refeniw'r gyllideb a bydd hyn hefyd yn cael ei gyhoeddi i'r BILlau a'r comisiwn yn y llythyr dyraniad refeniw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn unrhyw ddeisebau gan y cyhoedd ynghylch cynigion i newid darpariaeth y gwasanaeth tân yn Hwlffordd ac, os ydyw, a wnaiff hi roi'r manylion? (WAQ48319)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Ym mis Awst 2005, ymgymerodd Radio Pembrokeshire a'i hymgyrch i 'Achub ein Gorsaf'. Ymgyrch oedd hon i gadw darpariaeth gyfredol y gwasanaeth tân ac achub yn Hwlffordd, ac yr oedd yn cynnwys deiseb gyhoeddus a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad.

Cynhaliwyd yr ymgyrch hon cyn cyhoeddi canllawiau lleihau risg Llywodraeth y Cynulliad a'i safonau gwasanaeth o ran tanau mewn cartrefi (mis Mawrth 2006), sy'n rhoi cyfarwyddyd strategol i awdurdodau tân ac achub i ymdrin â risg ac yn gosod safonau o ran mynd i ddelio â thanau domestig. Dywed bod yn rhaid i'r cynigion gael eu seilio ar dystiolaeth gadarn a bod yn destun ymgynghori llawn â'r cyhoedd, a rhaid i'r awdurdod tân ac achub rhoi sylw llawn i hynny cyn gweithredu ei gynllun lleihau risg.

Mae'r awdurdodau tân ac achub yn y broses o gwblhau eu cynlluniau lleihau risg ar eu gwedd derfynol ar ôl ymgynghori ac nid wyf eto wedi derbyn unrhyw ddeisebau pellach mewn perthynas â Hwlffordd ers inni gyflwyno ein canllawiau. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael gohebiaeth ac yr wyf yn ymwybodol o gryfder y teimlad ymysg y cyhoedd ynglŷn â chynigion i newid patrymau gwaith y criwiau yn Hwlffordd.

Nid yw Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datgan eto pa newidiadau, os oes rhai, y mae'n bwriadu eu gwneud i'w gynllun lleihau risg o ganlyniad i'r ymgynghori. Ni fyddai'n ddoeth imi gynnig sylwadau pellach nes bydd y canlyniad yn hysbys.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog nodi cyfanswm y grantiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad er mwyn adfywio Blaenafon er 1999, gan gynnwys datblygu cyfleoedd twristiaeth, ac a wnaiff roi braslun o'r arian a ddarparwyd fesul blwyddyn a fesul grant? (WAQ48335)

**Edwina Hart:** Er 1999, mae Blaenafon wedi cael £2,166,603 o gyllid grant tuag at brosiectau adfywio drwy gynlluniau yn fy mhortffolio i. Y cynlluniau yw:

**Y Gronfa Adfywio Lleol i Awdurdodau Lleol**
£500,000 Pwll Mawr, Blaenafon, 2002-04

**Y Gronfa Adfywio Ffisegol—olynydd i'r Gronfa Adfywio Lleol**
£166,617 Canol Tref Blaenafon—cyllid datblygu drwy'r Gronfa Adfywio Ffisegol—2004-05
£1,499,986 Canol Tref Blaenafon — cyllid gweithredu drwy'r Gronfa Adfywio Ffisegol —2006-09

Mae a wnelo llawer o'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio â rhaglenni y mae Andrew Davies yn gyfrifol amdanynt. Yr wyf wedi gofyn iddo ysgrifennu atoch cyn gynted ag y bydd yr holl wybodaeth wedi cael ei chasglu ynghyd.